# Prosesu dyfynbrisiau uniongyrchol ar gyfer busnes bywyd, pensiynau a buddsoddi newydd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phrosesu dyfynbrisiau uniongyrchol ar gyfer busnes bywyd, pensiynau a buddsoddi newydd. Mae'n ymwneud â delio gyda cheisiadau safonol am fusnes newydd a'u prosesu. Byddwch yn penderfynu a ellir prosesu dyfynbris, ac os gellir, yn ei ddosbarthu i'r cwsmer. Byddwch yn gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd i gwblhau'r dyfynbris a bod yr wybodaeth yn bodloni'r gofynion cymhwystra. Byddwch yn hysbysu'r cwsmer ynghylch y penderfyniad.  Bydd angen i chi ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn foesegol, gan roi sylw i fanylion sy'n hollbwysig i'ch gwaith.

Efallai bydd y safon hon yn addas i chi os ydych chi'n gweithio i yswiriwr neu ddarparwr cynnyrch arall, neu ar eu rhan.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Gwirio bod gennych chi fanylion digonol ynghylch yr addasiad i'ch galluogi i symud ymlaen
2. Prosesu ceisiadau gan fwydo gwybodaeth gywir a chyflawn i'r system berthnasol, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
3. Sicrhau eglurhad ynghylch gwybodaeth anghyflawn neu anghyson gyda chleientiaid, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
4. Cymhwyso meini prawf tansgrifennu, gan gynnwys estyniadau safonol a chyfyngiadau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
5. Rhoi gwybod i gwsmeriaid beth yw'r telerau a'r amodau, yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. Trefnu bod dogfennau'n cael eu cyflwyno o fewn y terfynau amser perthnasol
7. Gwirio bod y bobl berthnasol yn cymryd y camau dilynol ar ôl pob dyfynbris
8. Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, safonau moesegol, polisïau sefydliadol a chodau ymarfer proffesiynol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Yr egwyddorion a'r rheoliadau cyfreithiol perthnasol sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
2. Strwythur y farchnad yswiriant a sicrwydd a rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol bartïon sy'n rhan ohoni sy'n effeithio ar eich gweithgareddau
3. Safonau a gweithdrefnau gwasanaeth cwsmeriaid eich sefydliad, gan gynnwys delio gyda chwynion
4. Ffynonellau cyngor a gwybodaeth yn y gwaith
5. Yr yswiriant sy'n cael ei ddarparu gan y polisïau rydych chi'n delio gyda nhw, gan gynnwys estyniadau a chyfyngiadau safonol
6. Polisi a gweithdrefnau eich sefydliad ynghylch cyfathrebu â chwsmeriaid
7. Cwestiynau safonol ynghylch ceisiadau neu ymholiadau ac atebion derbyniol
8. Terfynau eich awdurdod a'r camau sy'n ofynnol i dansgrifennu risg y tu allan i'ch awdurdod
9. Sut mae cymhwyso meini prawf tansgrifennu gan ddefnyddio systemau wedi'u hawtomeiddio
10. Y camau sy'n ofynnol os nad yw cais neu ymholiad yn bodloni'r meini prawf derbyn
11. Systemau a gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyrchu gwybodaeth cwsmeriaid
12. Gofynion eich sefydliad yng nghyswllt cymhwyso codau, cyfreithiau a gofynion rheoliadol, gan gynnwys safonau moesegol sy'n cael effaith ar eich gweithgareddau

## Ymddygiadau

1. Rydych yn arddangos dealltwriaeth o bobl eraill ac yn delio gyda nhw mewn modd proffesiynol
2. Rydych yn darparu gwybodaeth i'r rhai sydd ei hangen ac sydd â hawl i'w derbyn yn unig
3. Rydych yn gweithredu o fewn eich awdurdod

FSPLPI01

Prosesu dyfynbrisiau uniongyrchol ar gyfer busnes bywyd, pensiynau a buddsoddi newydd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Maw 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Partneriaeth Sgiliau Ariannol |
| **RCU gwreiddiol** | FSPLPI01 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyllid |
| **Cyfres/Set** | Bywyd, Pensiynau a Buddsoddiadau |
| **Geiriau Allweddol** | Busnes newydd; contract; dogfennaeth; cynnyrch ariannol; gwasanaethau ariannol; gwasanaeth cwsmeriaid |